# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)16-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 2 Mehefin 2009

**Amser:** 8.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorwr Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)15-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 19 Mai 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)16-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar y frech goch yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 2 a 3 Mehefin 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer dadl sy'n ceisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur a gynigir gan Aelod ynghylch asesu'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar 10 Mehefin 2009.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau**

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor ar ddydd Llun 15 Mehefin 2009 - BC(3)16-**

**09(p4)**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol ar ddydd Llun 15 Mehefin, fel rhan o'i ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd Cymreig.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**